Gweiddi

**Tasg 2**

# Bendigeidfran, Llywelyn ac Iolo

Dyma dasg i'w hateb yn llawn ar ffurf traethawd byr. Dyma'r cwestiwn:

> Trafodwch y ffordd mae'r awdur yn cyflwyno'r wybodaeth yn y darn darllen. Wrth ystyried yr iaith, arddull a'r cynnwys, beth yw nod yr awdur?

Cyn ateb, dyma rai pethau i'w hystyried:

- **ARDDULL**: Ydy'r darn yn ffurfiol, neu oes naws storïol? Ydy'r awdur yn gwneud i chi deimlo'n gartrefol wrth ddarllen? Pa frawddegau sy'n profi'r hyn rydych chi'n ei feddwl?
- **TAFODIAITH**: Nid oes tafodiaith amlwg i'w chlywed yma, ond mae'r awdur yn dod o'r Gogledd. Allwch chi ddarganfod enghreifftiau i gefnogi'r ffaith honno?
- **FFEITHIAU**: Nid yw pob darn o wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn ffaith. Mae rhai pethau'n amhosib eu profi. Sut mae'r awdur yn gwneud yn siŵr nad yw'r pwyntiau hyn yn cael eu cyfleu fel ffeithiau?
- **Y DEWIS**: Ystyriwch y tri chymeriad yn unigol a meddyliwch am yr hyn sy'n eu gwahaniaethu nhw oddi wrth y ddau arall. Yna, ystyriwch beth mae stori'r tri yn ei ddweud wrthon ni am berthynas Cymru â Lloegr dros y blynyddoedd.